

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 6 Ebrill 2021

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: DEDDFWRIAETH

Teitl: Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Chyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021

Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2022

I'w weithredu gan:

Angen gweithredu erbyn: Ar unwaith.

Pob Bwrdd Iechyd Lleol a WAST

Sender: Chris Wright, Iechyd Meddwl, Grŵpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw(au) Cyswilt GIG Llywodraeth Cymru:

Lyn Summers, y Tim Cymorth Deddfwriaeth Canolog, Iechyd Meddwl, Grŵpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, lyn.summers@llyw.cymru

Chris Wright, Iechyd Meddwl, Grŵpiau Agored i Niwed a Llywodraethiant y GIG, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, chris.wright@llyw.cymru

Blwch post: HSSG-CentralLegislationSupport@gov.wales

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Diben

Diben y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw rhoi gwybod ichi am Gyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021 a Chyfarwyddydau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021 a fabwysiadwyd ar 25 Mawrth 2021.

Gwybodaeth Gefndir

Yn dilyn Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (TCA) mae'r trefniadau gofal iechyd cilyddol rhwng y DU a'r UE o dan y Gyfarwyddeb Drawsffiniol (2011/24/EC) wedi dod i ben ac eithrio ar gyfer achosion trosiannol oedd ar y gweill ar 31 Rhagfyr 2020. O dan y Gyfarwyddeb, roedd gan gleifion hawl i geisio ad-daliad am daliad a wnaethant am ofal iechyd gan ddarparwyr gwladol neu breifat mewn rhannau eraill o'r AEE os oedd yr un fath neu'n gyfwerth â gwasanaeth a fyddai wedi bod ar gael i glaf o dan ei amgylchiadau yn ardal ei Fwrdd Iechyd Lleol.

Felly, ni all dinasyddion y DU ddefnyddio'r Gyfarwyddeb mwyach i gael triniaeth gofal iechyd yn yr UE. Fodd bynnag, mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a Diwygiadau Amrywiol etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn gwneud darpariaethau ar gyfer parhau ag achosion trosiannol, sef yr achosion hynny a oedd ar y gweill ar Ddyddiad Cwblhau'r Gweithredu (31 Rhagfyr 2020).

I adewyrchu'r darpariaethau newydd, mae dwy set o Gyfarwyddydau wedi'u diwygio:

- Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) 2013 (2013 Rhif 26) ("y Cyfarwyddydau Trawsffiniol");
- Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) 2010 ("y Cyfarwyddydau Ad-dalu").

Mae'r Cyfarwyddydau uchod wedi'u diwygio gan:

- Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) (Diwygio) 2021; a
- Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Mae'r Cyfarwyddydau diwygio yn parhau â Chyfarwyddydau Trawsffiniol 2013 a Chyfarwyddydau Ad-dalu 2010 ar gyfer yr achosion trosiannol hynny sy'n parhau i fod yn gymwys yn rhinwedd Rheoliadau 2019.

Mae'r Cyfarwyddydau diwygio yn ei gwneud yn glir y bydd y Cyfarwyddydau presennol yn parhau i fod yn gymwys gydag addasiadau ar gyfer achosion trosiannol.

Mae'r Cyfarwyddydau diwygio hefyd yn gwneud addasiadau i rwymedigaethau Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) mewn perthynas â darparu gwybodaeth etc. i'r cyhoedd i ddarparu nad yw'n ofynnol mwyach i BILlau ddarparu gwybodaeth am driniaethau Cyfarwyddeb ond yn hytrach bod yn rhaid iddynt wneud ymdrechion rhesymol i ddarparu gwybodaeth.

Cyhoeddir y Cyfarwyddydau ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/cyfarwyddydau-gwasanaeth-iechyd-gwladol-gofal-iechyd-trawsffiniol-cymru-diwygio-2021>

<https://llyw.cymru/cyfarwyddydau-gwasanaeth-iechyd-gwladol-ad-dalu-cost-triniaeth-ae-cymru-diwygio-2021>

Camau Gweithredu

Gofynnwn i chi ymgyswrtio â'r Cyfarwyddydau diwygio yn y dolenni uchod a gweithredu'n unol â nhw.